Rhwydwaith Môr Iwerddon




Mandala tywod a llun diolch i: Simon Wheatley

# Diwrnod Môr Iwerddon 2024

## Adroddiad effaith

Diolch i gyllid gan:

sea-changers

John Ellerman Foundation

Esmée Fairbairn Foundation

Mae Rhwydwaith Môr Iwerddon yn bartneriaeth o 10 Ymddiriedolaeth Natur o bob rhan o Fôr Iwerddon, Tasglu Morol Gogledd Iwerddon (NIMTF), Ymddiriedolaeth Natur Iwerddon, a'r Rhwydwaith Dŵr Cynaliadwy (SWAN) sydd wedi dod at ei gilydd i wella ein heffaith ni ar y cyd ar gyfer byd natur.

Diwrnod Môr Iwerddon 2024

# trosolwg




## 1200

**o bobl wedi ymgysylltu**

**Drwy**

## 10

**digwyddiad**




**ar draws**

## 6

**gwlad**

gan gynnwys Ynys Manaw, yr Alban, Cymru, Lloegr, Gweriniaeth Iwerddon a Gogledd Iwerddon

## 415

**o bysgod dymuniadau**

347 wedi'u hysgrifennu mewn digwyddiadau a 68 ar-lein



# Uchafbwyntiau Diwrnod Môr Iwerddon



## Cydweithredu ar draws ffiniau

Cydweithredodd Rhwydwaith Môr Iwerddon i drefnu 10 digwyddiad o amgylch arfordir Môr Iwerddon: traeth St Bees, Bae Half Moon, Caer, Traeth Talacre a Chastell Fflint yn Lloegr. Cei Newydd a Chaergybi yng Nghymru. Ynys Manaw. Carlingford Lough sy'n cwmpasu Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Port William yn yr Alban.



## Cysylltu â'r môr

Cysylltodd pobl gyda Môr Iwerddon drwy grwydro pyllau creigiog, teithiau cerdded arfordirol tywys, saffaris snorcelu, sesiynau blasu caiacio môr, glanhau traethau, modelu heulforgwn maint llawn, profiad Realiti Rhithwir a llawer mwy



## Gwyddoniaeth y dinesydd a dysgu

Fe gymerodd pobl ran mewn gwyddoniaeth y dinesydd drwy sesiynau bioblitz morol, arolygon o famaliaid ac adar môr, ac adnabod gwymon. Roedd cyfleoedd ar gyfer dysgu rhyngweithiol am fywyd gwyllt morol, sgyrsiau ar hanes a threftadaeth Môr Iwerddon ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig.



## Pysgod dymuniadau

Rhannodd 415 o aelodau'r cyhoedd eu dymuniadau ar gyfer Môr Iwerddon, gan eu hysgrifennu ar bysgod papur neu eu huwchlwytho ar fap ar-lein, gan ychwanegu eu llais at y casgliad cynyddol o bysgod dymuniadau.



## Negeseuon sy'n cael eu rhannu

Fe fuon ni'n dathlu Môr Iwerddon a hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth rhyfeddol o fywyd morol sydd ynddo, y cysylltedd rhwng pobl a bywyd gwyllt, y pwysau ar yr amgylchedd morol a'r angen am warchodaeth a rheolaeth gryfach. Dosbarthwyd adnoddau ar y cyd gennym ni (e.e. taflenni a dalenni ffeithiol am rywogaethau allweddol) i rannu'r negeseuon allweddol yma.



## Ymgysylltu

Fe wnaethon ni ymgysylltu â thua 1200 o oedolion a phlant ar Ddiwrnod Môr Iwerddon. Cafodd ASau eu gwahodd i'r digwyddiadau i weld pam fod gwarchod Môr Iwerddon mor bwysig. Roedd AS Morecambe a Lunesdale yn bresennol yn y digwyddiad yn Swydd Gaerhirfryn (Lloegr). Ar Ynys Manaw, mynychodd yr Is-lywodraethwr a'r Fonesig Lorimer y digwyddiad.



## Celfyddydau a gemau

Roedd y digwyddiadau'n llawn o gelf a chrefft a gemau ar thema'r môr, gorymdeithiau gwisg ffansi, cystadlaethau cerfluniau tywod, mandala tywod, a pherfformiadau theatr a band pres.



## Sylw ar y cyfryngau

Fe gyrhaeddodd y cyfryngau cymdeithasol cyn ac ar y diwrnod 10,607 o bobl. Cafwyd cyfweliad byw ar BBC Radio Cumbria a Swydd Gaerhirfryn ac fe fuon ni hefyd yn siarad ar Three FM ac IoM Today

Rhwydwaith Môr Iwerddon



Cydnabyddiaeth am y llun: Jack Bradshaw

# Pysgod Dymuniadau

## Themâu allweddol


# Pysgod Dymuniadau

## Themâu allweddol

Ar Ddiwrnod Môr Iwerddon ychwanegodd


**415***

o bobl o sawl ardal o amgylch Môr Iwerddon eu gobeithion ar gyfer Môr Iwerddon at y casgliad o bysgod dymuniadau





**97**

o ddymuniadau am well gwarchodaeth gan gynnwys AMG'oedd, pysgota cynaliadwy ac adfer




**71**

o ddymuniadau am atal plastig a sbwriel rhag mynd i mewn i'r môr




**100**

o ddymuniadau am Fôr Iwerddon glanach a llai o lygredd




**79**

o ddymuniadau am fwy o fywyd gwyllt ac ecosystemau iachach




* Casglwyd cyfanswm o 415 o bysgod dymuniadau o bob digwyddiad ac ar-lein. Ni chafodd y dymuniadau o Ynys Manaw eu categoreiddio ac felly nid ydyn nhw wedi'u cynnwys yn niferoedd y themâu allweddol. Roedd rhai pysgod yn cynnwys mwy nag un dymuniad ac fe gawsant eu cyfrif mewn mwy nag un categori. Os oedd y llawysgrifen neu'r thema'n aneglur, cafodd y dymuniad ei gategoreiddio fel 'amrywiol'.